Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Mynydd Isa
Bryn Road
Bryn Y Baal
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6RY

02/12/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Mynydd Isa yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion

- Mae arweinwyr wedi gweithio'n strategol dros gyfnod amser cynaledig i wella darpariaeth yr ysgol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r agwedd hon a sicrhau bod y Gymraeg yn bresenoldeb cryf ym mywyd a gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd.
- Mae dysgu proffesiynol effeithiol a thargedig wedi gwella gallu a hyder staff i fodelu'r Gymraeg. Ar draws yr ysgol, mae staff bellach yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ac yn effeithiol yn ystod gwersi, ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.
- Ceir dull strwythuredig sy'n cefnogi datblygiad graddol medrau disgyblion o ran siarad Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarwyddiadau, cwestiynau neu arweiniad mynych yn Gymraeg gan staff ac, ar draws yr ysgol, mae gan lawer ohonynt agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg.
- Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn galw geirfa a phatrymau brawddeg i gof yn dda. Maent yn defnyddio'r rhain yn hyderus gyda lefelau da o annibyniaeth ac yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r tasgau hyn yn ddigon pwrpasol i ychwanegu gwerth at y dysgu.
- Mae gwasanaethau dathlu wythnosol buddiol yn codi proffil y Gymraeg yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion a staff arddangos eu medrau Cymraeg ac atgyfnerthu dysgu yn effeithiol. Maent hefyd yn galluogi disgyblion y 'Criw Cymraeg' i gyfrannu'n werthfawr at ddiwylliant Cymraeg yr ysgol.

## Datblygu cynllunio cwricwlwm yr ysgol i adlewyrchu'r ystod amrywiol o gefndiroedd a safbwyntiau a geir mewn cymdeithas

- Mae arweinwyr yr ysgol wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan at sicrhau bod disgyblion yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth mewn cymdeithas.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn elwa ar ddysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n datblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth a phwysigrwydd iaith gynhwysol.
- Mae arweinwyr a staff yn datblygu cwricwlwm sy'n darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddysgu am ystod amrywiol o bobl trwy hanes ac, mewn ychydig o achosion, o gymdeithas fodern.
- Mae staff yn dewis adnoddau dysgu'n ystyriol i hyrwyddo cynhwysiant. Er enghraifft, maent yn dewis llyfrau a theganau sy'n cynrychioli ystod eang o bobl a diwylliannau.
- Mae staff yn darparu ychydig o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ennill dealltwriaeth o amrywiaeth trwy weithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau'n dda tra'n perfformio yn y côr iaith arwyddion.
- Mae staff yn trefnu ystod addas o wasanaethau ac ymwelwyr sy'n cefnogi datblygiad gwybodaeth disgyblion am amrywiaeth, a'u dealltwriaeth ohoni, yn dda.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-mynydd-isa-cy/

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol